**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD EUR-05-01(p.1)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **17 Hydref 2001** |
| **Amser** | **9.00am** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Bwyllgora** |
| **Teitl** | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**Diben**

1. Darparu gwybodaeth am y materion sydd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

**Argymhelliad**

2. Bod aelodau'n nodi'r cynnwys.

**Cefndir**

3. Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar 28 Mehefin 2001. Cafwyd nifer o ddatblygiadau ers hynny, ac maent wedi'u nodi isod.

**Ymweliadau**

Y Comisiwn Ewropeaidd

4. Cafwyd sawl datblygiad yn sgil ymweliad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Jane Hutt, â Brwsel ym mis Mehefin, pan gyfarfu â David Byrne, Comisiynydd Iechyd a Diogelu Defnyddwyr yr UE. Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd a Chyfundren Iechyd y Byd (WHO) ddiddordeb mawr yng ngwaith y Cynulliad ar asesu effeithiau polisïau ar iechyd. Noder y digwyddiadau canlynol, a fynychwyd gan swyddogion:

- Ar gais y Comisiwn Ewropeaidd, cynhaliwyd seminar ym Mrwsel ar 2 Medi ar drefn y Cynulliad ar gyfer asesu effeithiau polisïau ar iechyd. Traddodwyd anerchiad ar ran y Cynulliad gan y Dr Ruth Hall, Prif Swyddog Meddygol.

- Cynhaliwyd cyfarfod ddydd Gwener, 14 Medi, fel rhan o waith y Comisiwn ar sut i asesu effeithiau polisïau ar iechyd, i wneud iechyd yn ystyriaeth ym mhob maes polisi. Roedd Ceri Breeze o'r Is-adran Gwasanaethau Iechyd yn bresennol.

- Ar y cyd â'r Comisiwn Ewropeaidd, mae'r WHO wedi trefnu seminar datblygu Ewropeaidd ar asesiadau effaith ar iechyd ar gyfer 11-13 Hydref. Roedd y Cynulliad yn bwriadu anfon cynrychiolydd p'run bynnag, ond oherwydd ein gwaith ar ddatblygu trefniadau asesu effeithiau ar iechyd, gofynnodd y WHO inni roi cyflwyniad ar ein gwaith. Fe'n cynrychiolwyd gan Ceri Breeze.

- Mae Menter Cyfarwyddiaeth Gyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd, mewn partneriaeth â'r aelod-wledydd, wedi cyd-ariannu nifer o seminarau ledled Ewrop i drafod materion polisi a lledaenu arferion da o ran cynorthwyo busnesau a meysydd tebyg. Yng Nghaerdydd ar 11 a 12 Hydref, cynhaliwyd y seminar Prydeinig a fu'n edrych ar Wasanaethau Cymorth o'r Radd Flaenaf i Fusnesau. Cafwyd cynrychiolwyr o'r holl aelod-wledydd ynghyd ag o nifer o'r 'darpar'-aelodau. Roedd yn fraint imi hefyd gael cymryd rhan yn yr ail ddigwyddiad Ewropeaidd, y Gynhadledd Busnes a'r Amgylchedd, a gynhaliwyd ar 9 a 10 Hydref, lle rhoddais yr anerchiad agoriadol.

<u>Cyngor yr Undeb Ewropeaidd</u>

5. Mae cyfranogaeth y Cynulliad yng nghyfarfodydd y Cyngor yn cryfhau. Ar 23 Gorffennaf, aeth Carwyn Jones AC, y Gweinidog Materion Gwledig i gyfarfod y Cyngor Amaethyddol ym Mrwsel fel rhan o ddirprwyaeth y DU. Trafodwyd y diwygiadau i'r regime cig dafad, ymhlith pethau eraill.

<u>Ymweliadau gan Weinidogion</u>

6. Ar 24 a 25 Mehefin, mynychodd Carwyn Jones AC, y Gweinidog Materion Gwledig, gyfarfod y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ym Mrwsel. Cafodd y Gweinidog a chwe aelod arall o'r Pwyllgor gyfarfodydd â swyddogion y Comisiwn, gan gynnwys Franz Fischler, chef de cabinet, ASEau o Gymru a staff o Ganolfan Ewropeaidd Cymru. Trafodwyd materion a oedd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor – diwygio'r regime cig defaid, effaith y Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin ar ehangu'r Gymuned yn y dyfodol.

7. Aeth Sue Essex, Gweinidog yr Amgylchedd, ynghyd â swyddogion o Asiantaeth yr Amgylchedd ac Is-Adran Amgylchedd y Cynulliad, i Sweden rhwng 18 a 20 Medi. Bwriad yr ymweliad oedd cwrdd â Gweinidog Amgylchedd Sweden, Kjell Lansson, i drafod ei strategaeth gwastraff a materion amgylcheddol cyffredinol. Mae cyfran y gwastraff yn Sweden sy'n cael ei adfer a'i ailgylchu wedi codi'n aruthrol dros y 10 mlynedd diwethaf, ac mae llai o sbwriel, yn enwedig gwastraff peryglus, erbyn hyn yn cael ei gladdu mewn tomennydd. Dyna fydd union fwriad strategaeth gwastraff Cymru pan gaiff ei chyhoeddi. Nod yr ymweliad oedd dysgu o brofiad Sweden i'n helpu ni yma yng Nghymru.

8. Ymwelodd Jane Hutt, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, â Gastein, Awstria ar 25 a 26 Medi i siarad yng nghyfarfod Fforwm Iechyd Ewrop ar Iechyd ar draws Ffiniau Polisi.

Dyma oedd pedwerydd cyfarfod Fforwm Iechyd Ewrop, sy’n gynhadledd ar bolisi iechyd a ddenodd gyfranogwyr o Sefydliadau Ewropeaidd a sectorau cysylltiol (cleifion a defnyddwyr, gwleidyddiaeth, busnesau a diwydiant, gwyddoniaeth a’r byd academaidd) yng ngwledydd yr UE a thu hwnt. Mae cael cyfranogaeth ryngwladol i drafod gofal iechyd ac iechyd cyhoeddus yn hybu datblygiad consensws ar bolisi iechyd Ewropeaidd ar ddechrau’r 21 Ganrif.

9. Mynychodd Andrew Davies, AC, Trefnydd y Cynulliad, gynhadledd y Rhwydweithiau Tele-Ranbarthau (TRN) yn Valencia rhwng 2 a 6 Hydref. Mae manteision i TRN bod Cymru’n cymryd rhan gan fod y Comisiwn eisoes yn uchel eu clod o’r hyn rydym wedi’i wneud i ddatblygu Cymdeithas yr Oes Wybodaeth yma ac yn annog sawl rhanbarth arall i ddilyn ein hesiampl. Mae’r Comisiwn wedi dweud hefyd ei fod am weithio gyda rhanbarthau ar y math o bethau y mae Tele-ranbarthau yn ymwneud â nhw. Mae’r Gweinidog yn rhinwedd ei swydd fel ei Lywydd mewn sefyllfa dda i allu mynegi barn Cymru a’r TRN ei hun i’r Comisiwn am ddatblygiadau’r oes wybodaeth sy’n effeithio ar ddatblygu rhanbarthol.

10. Ar 14 ac 15 Hydref, roedd Carwyn Jones AC, y Gweinidog Materion Gwledig, yn bresennol yn "Anuga" 2001 yn Cologne, yr Almaen. Anuga yw un o ffeiriau masnach pwysica’r byd ar gyfer y diwydiant bwyd a diod. Aeth y gweinidog yno i gefnogi Cyfarwyddiaeth Fwyd Awdurdod Datblygu Cymru a’r ugain cwmni o Gymru a oedd â stondinau yn y ffair.

<u>Cysylltiadau â Darpar-Aelod-Wladwriaethau</u>

11. Cefais y fraint ym mis Gorffennaf o gwrdd â grwp o uwch-swyddogion o 12 darpar-aelod-wlad, hynny yn ystod eu hymweliad hanner diwrnod â Chymru fel rhan o drip o gwmpas y DU i astudio polisi a datblygu rhanbarthol. Trefnwyd yr ymweliad gan y Swyddfa Dramor a bu’n gyfle i edrych yn fanwl ar yr her sy’n wynebu aelod-wlad wrth roi rheoliadau’r UE ar waith.

12. Rwyf hefyd wedi derbyn gwahoddiad oddi wrth Farsial Foifodiaeth Silesia, Mr Jan Olbrycht i ymweld â Silesia. Bydd fy ymweliad yn ategu ein Strategaeth Ehangu trwy hybu cysylltiadau â darpar-aelodau, er ein bod eisoes wedi datblygu rhai cysylltiadau. Mae gan FasnachCymru Rhyngwladol gysylltiadau â’r rhanbarth, a chymerodd swyddog o Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru ran mewn menter Brydeinig, "Action Local Government", yn Silesia yn gynharach eleni. Diben y fenter oedd meithrin cysylltiadau rhwng rhanbarthau yng Ngwlad Pwyl a Phrydain, a’u hannog i gydweithio â’i gilydd. Rwy’n gobeithio cael ymweld â Silesia ym mis Rhagfyr.

<u>Pwyllgor y Rhanbarthau</u>

13. Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, mae dau gynrychiolydd y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau wedi mynychu cyfarfodydd ym Mrwsel. Roedd John Griffiths AC yn bresennol yn y sesiynau llawn ar 19 a 20 Medi lle trafodwyd y Cynllun Gweithredu ar e-ddysgu, helpu busnesau bach a chanolig i fynd yn ddigidol a dyfodol Ewrop, gan gynnwys datganiad gan Lywydd y Comisiwn, Romani Prodi. Mae Mr Prodi a Mr Jos Chabert, Llywydd Pwyllgor y

Rhanbarthau, wedi cyhoeddi datganiad ar y cyd ar drefniadau i'r ddau sefydliad gydweithio â'i gilydd.

14. Bu Elin Jones AC yng nghyfarfod y Comisiwn ar Amaethyddiaeth, Datblygu Gwledig a Physgodfeydd ar 3 Gorffennaf lle trafodwyd effaith ehangu'r UE ar amaethyddiaeth gyda siaradwyr gwâdd o Wlad Pwyl, Hwngari ac Estonia. Trafodwyd hefyd ddyfodol y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, diogelwch bwyd yng nghyd-destun yr argyfwng BSE, datblygu ardaloedd gwledig trwy gyfrwng polisi proactif ar dechnoleg gwybodaeth, a chais am symleiddio deddfwriaeth amaethyddol. Bydd y pynciau hyn ar agenda cyfarfod nesa'r Comisiwn ar 9 Hydref hefyd.

<u>Cymorth Gwladol – Clwy'r Traed a'r Genau</u>

15. Yn y cyfarfod diwethaf, gofynnwyd i swyddogion baratoi papur ar y sefyllfa o ran Cymorth Gwladol ar gyfer Clwy'r Traed a'r Genau. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisi Cymorth Gwladol yng nghyd-destun Clwy'r Traed a'r Genau ac mae'r Adran Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) wrthi'n ystyried y sefyllfa. Yn ei gyngor i awdurdodau lleol sy'n gweinyddu'r cymorth a roddir i fusnesau sydd wedi dioddef oherwydd Clwy'r Traed a'r Genau, mae'r Cynulliad wedi pwysleisio pwysigrwydd cadw at reolau'r Cymorth Gwladol, ac yn fwyaf arbennig y terfyn o £60,000 i bob busnes dros dair blynedd, sef y rheol de minimis.

<u>Mentrau Newydd</u>

<u>Secondiadau</u>

16. Lansiodd y Cynulliad "Cynllun Secondiadau i Sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd" ddydd Llun, 1 Hydref. Ei nod yw secondio mwy o bobl o Gymru i weithio yn Sefydliadau'r UE. Rwy'n credu bod hwn yn rhywbeth y gallwn oll fel aelodau'r Pwyllgor ei gefnogi. Bydd y cynllun yn ffordd dda i gynyddu'r gronfa o bobl o Gymru sydd ar gael i'w secondio i Ewrop, ac mae'n cael ei ddatblygu fel rhan o Strategaeth Ewropeaidd y Cynulliad i sicrhau mwy o ddylanwad yn Ewrop.

**Cydymffurfiaeth**

17. Ymdrinnir â gwaith y Pwyllgor gan reol sefydlog 15. Ymgynghorwyr â Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad ac maent yn fodlon ei fod yn cydymffurfio.

**Goblygiadau Ariannol**

18. Ni fydd goblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Er hynny, caiff gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol ar y "Cynllun Secondiad" ei dynnu o linell wario 212 Cyllideb Gwasanaethau Cynnal Ewropeaidd Amrywiol 2001-2002. Caiff gwariant yn y dyfodol ei ysgwyddo o fewn cyllidebau cyfatebol a gymeradwyir gan y Cynulliad.

**Yvonne Pope**

**EEAD 1**